

Y Polisi Atal Gwyngalchu Arian ac Atal Cyllido Terfysgwyr



Swansea University
Prifysgol Abertawe

Perchennog	Y Prif Swyddog Ariannol
Rhif y fersiwn	5.0
Dyddiad cymeradwyo	
Cymeradwywyd gan	Y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg
Dyddiad dod i rym	Mawrth 2026
Dyddiad yr adolygiad nesaf	Mawrth 2028

1. Rhagarweiniad
 - 1.1 Nodau'r polisi
 - 1.2 Cwmpas
 - 1.3 Cydymffurfiaeth
2. Y Swyddog Enwebedig a phersonau atebol
 - 2.1 Y Swyddog Enwebedig
 - 2.2 Personau Atebol
3. Beth yw Gwyngalchu Arian?
 - 3.1 Beth yw gwyngalchu arian?
 - 3.2 Camau gwyngalchu arian
4. Arwyddion Rhybudd neu Faneri Coch Gwyngalchu Arian
 - 4.1 Trafodion a all beri amheuan
5. Gwyngalchu Arian - Y Gyfraith
 - 5.1 Y Prif Droseddau Gwyngalchu Arian
 - 5.2 Cymhwyso Troseddau Gwyngalchu Arian ac Eiddo Troseddol
 - 5.3 Amddiffyniadau a chyfrifoldebau
 - 5.4 Methiant i ddatgelu
 - 5.5 Y Drosedd Niweidio Ymchwiliadau/Rhoi Achlust
 - 5.6 Adnabod eich Cwsmer
6. Cyllid Terfysgwyr
 - 6.1 Y Prif Droseddau Cyllid Terfysgwyr
 - 6.2 Y Drosedd Niweidio Ymchwiliadau
7. Ein Gweithdrefnau
 - 7.1 Trosolwg o'r weithdrefn
 - 7.2 Asesiad Risg, Adolygiad Parhaus ac Atebolrwydd y Brifysgol
 - 7.3 Diwydrwydd Dyladwy ynghylch Trafodion
 - 7.4 Asesu Risg Trafodion
 - 7.5 Cyfrinachedd asesiadau risg
 - 7.6 Monitro
 - 7.7 Hyfforddiant
8. Monitro ac Adolygu
9. Polisiâu Cysylltiedig

1. Rhagarweiniad

1.1 Nodau'r Polisi

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i sicrhau'r safonau uchaf o uniondeb yn ei gweithgareddau ariannol. Felly, bydd hi'n sicrhau bod ganddi reolaethau ariannol priodol a chadarn ar waith er mwyn gwarchod ei harian a sicrhau parhad ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd. Bwriedir rhai o'r rheolaethau hyn i sicrhau bod y Brifysgol yn cydymffurfio'n llawn â'i rhwymedigaethau, i ymatal rhag ymgymryd â gwyngalchu arian neu gyllid terfysgwyr neu ymwneud â'r gweithgareddau hyn mewn unrhyw ffordd arall.

Mae'r polisi hwn yn nodi'r rhwymedigaethau hynny, ymateb y Brifysgol a'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Ei nod yw diogelu cyflogeion a chyllid y Brifysgol, wrth sicrhau ymddiriedaeth a hyder parhaus y cyhoedd.

1.2 Cwmpas

Mae'r Polisi hwn yn gymwys i'r holl gyflogeion sy'n ymgymryd â gweithgareddau ar ran y Brifysgol a'i his-gwmnïau. Felly, mae'n gymwys i:

- Gyflogeion Prifysgol Abertawe a'i his-gwmnïau.
- Holl incwm y Brifysgol a'i his-gwmnïau, eu holl daliadau a'u holl geisiadau i gael incwm neu wneud taliadau yn y DU a thramor.

1.3 Cydymffurfio

Rhaid i holl weithgarwch y Brifysgol a'i his-gwmnïau lynu wrth y Polisi Atal Gwyngalchu Arian ac Atal Terfysgaeth hwn a pholisïau cysylltiedig eraill y Brifysgol.

Mae cydymffurfio'n orfodol. Gellir mynd i'r afael â methu cydymffurfio yn unol â gweithdrefnau ymddygiad y Brifysgol, a gallai'r unigolyn dan sylw fod mewn perygl o gyflawni trosedd gwyngalchu arian.

2. Swyddog Enwebedig a phersonau atebol

2.1 Swyddog Enwebedig

Y Swyddog Enwebedig yw'r Prif Swyddog Ariannol. (s.n.jones@abertawe.ac.uk). Rhaid rhoi gwybod i'r Swyddog Enwebedig ar unwaith am bob amheuaeth neu bryder o ran gwyngalchu arian neu atal cyllid terfysgwr.

Pan fo'r Swyddog Enwebedig yn absennol, dylid rhoi gwybod yn uniongyrchol i'w ddirprwy, sef y Cyfarwyddwr Cyllid Cysylltiol (n.s.owen@abertawe.ac.uk).

Mae'r Swyddog Enwebedig yn atebol yn uniongyrchol i'r Person Atebol.

2.2. Personau Atebol

Mae'r Is-ganghellor yn atebol yn uniongyrchol i'r Cyngor am weithredu'r polisi hwn. Felly, bydd yn sicrhau:

- y cynhelir asesiadau rheolaidd o risgiau'r Brifysgol o ran gwyngalchu arian a chyllid terfysgwyr, ac y dibynnir ar y rhain er mwyn sicrhau effeithiolrwydd y polisi hwn.
- y cynhelir diwydrwydd dyladwy priodol, ac o ganlyniad i hynny caiff risgiau sy'n ymwneud â thrafodion unigol eu hasesu, eu lliniaru a'u hadolygu'n gyson.
- y darperir hyfforddiant atal gwyngalchu arian ac atal cyllid terfysgwr yn y Brifysgol; ac
- y caiff y polisi hwn ei adolygu a'i ddiweddarau yn ôl yr angen, ac y caiff lefelau cydymffurfiaeth eu monitro.

Mae pob cyflogai'n atebol am ei weithredoedd yn unol â'r polisi hwn.

3. Beth yw gwyngalchu arian?

3.1 Beth yw gwyngalchu arian?

Gwyngalchu arian yw'r broses o lanhau enillion troseddau i guddio eu tarddiad anghyfreithlon a'u troi'n gyfreithlon. Bydd lefelau soffistigedig rwydd amrywiol gan gynlluniau gwyngalchu arian, o gynlluniau syml iawn i gynlluniau hynod gymhleth. Gall cynlluniau syml gynnwys trosglwyddo arian parod neu wneud taliadau mawr ag arian parod, ac mae cynlluniau mwy cymhleth yn debygol o gynnwys symud arian ar draws ffiniau a thrwy nifer o gyfrifon banc.

3.2 Camau gwyngalchu arian

Fel arfer, bydd cynlluniau gwyngalchu arian yn cynnwys tri cham penodol:

- **lleoli** - y broses o roi arian troseddol yn y system ariannol.
- **haenu** - y broses o symud yr arian sydd yn y system ariannol drwy haenau o drafodion; ac
- **integreiddio** - y broses o integreiddio'r arian yn yr economi yn y pen draw, efallai ar ffurf taliad ar gyfer gwasanaeth dilys.

4. Arwyddion Rhybudd neu Faneri Coch Gwyngalchu Arian

4.1 Trafodion a all beri amheuan

Gall taliadau neu daliadau arfaethedig i'r Brifysgol, neu geisiadau i'r Brifysgol eu talu, achosi amheuan am wyngalchu arian oherwydd sawl rheswm gwahanol. Er enghraifft:

- taliadau arian parod mawr.
- sawl taliad arian parod bach er mwyn talu am un rhwymedigaeth.
- taliadau neu daliadau arfaethedig gan drydydd partïon, yn enwedig pan:
 - nad oes cysylltiad rhesymegol rhwng y trydydd parti a myfyriwr, neu
 - nid yw'r Brifysgol yn adnabod y trydydd parti fel arall, neu
 - caiff dyled i'r Brifysgol ei thalu gan drydydd partïon amrywiol drwy wneud sawl taliad bach.
- taliadau gan drydydd partïon sy'n swyddogion cyhoeddus tramor neu sy'n unigolion sydd â rôl wleidyddol uchel ei phroffil ("PEP").
- taliadau a wneir mewn ffordd anarferol neu gymhleth.
- cynigion o fenthyciadau byrdymor o symiau mawr nas gofynnwyd amdanynt, i'w had-dalu drwy siec neu drosglwyddiad banc, efallai mewn arian cyfred gwahanol ac yn nodweddiadol ar y sail y gallai'r Brifysgol gadw llog neu swm bach fel arall.
- rhoddion sy'n amodol ar roi cynnig gwaith i unigolion neu sefydliadau penodol nad yw'r Brifysgol yn gyfarwydd â nhw.
- ceisiadau i ad-dalu blaendaliadau, yn enwedig pan ofynnir i'r Brifysgol ad-dalu'r swm i rywun ar wahân i'r talwr gwreiddiol.
- cyfres o daliadau bach a wnaed o wahanol gardiau credyd heb gysylltiad amlwg â myfyriwr, weithiau cyn cael ceisiadau i hawlio'r arian yn ôl.
- mae'r darpar dalwr am dalu ymlaen llaw swm sy'n fwy na'r angen, neu fel arall y mae am wneud taliad cyn ei fod yn ddyledus.
- mae darpar dalwyr yn rhwystrol, yn ochelgar neu'n gyfrinachgar pan ofynnir iddynt am eu hunaniaeth neu ffynhonnell eu harian neu eu cyfoeth.

- taliadau arfaethedig gan ffynhonnell a allai fod yn risg neu awdurdodaeth risg uchel.
- nid yw gallu'r talwr i ariannu'r taliadau gofynnol yn amlwg ar unwaith, neu mae'r trefniadau ariannu'n anarferol fel arall.

5. Gwyngalchu Arian - y Gyfraith

5.1 Y Prif Droseddau Gwyngalchu Arian

Mae'r Gyfraith ynghylch gwyngalchu arian yn gymhleth ac mae'n cael ei gorfodi mewn modd cynyddol ragweithiol. Gellir ei rhannu'n dri phrif fath o drosedd:

- y prif droseddau gwyngalchu arian o dan Ddeddf Enillion Troseddau 2002
- Y drosedd o niweidio ymchwiliadau o dan Ddeddf Enillion Troseddau 2002; a
- throseddau o fethu bodloni'r safonau sy'n ofynnol gan fusnesau penodol sydd wedi'u rheoleiddio, gan gynnwys troseddau methu datgelu amheuan o wyngalchu arian a methu cydymffurfio â gofynion gweinyddol Rheoliadau Gwyngalchu Arian, Ariannu Terfysgwyr a Throsglwyddo Cyllid (Gwybodaeth am y Talwr) 2017.

5.2 Cymhwyso Troseddau Gwyngalchu Arian ac Eiddo Troseddol

Mae'r troseddau hyn a geir yn adrannau 327, 328 a 329 o Ddeddf Enillion Troseddau 2002, yn gymwys i:

- unrhyw eiddo (e.e. arian parod, cyfrifon banc, eiddo diriaethol neu asedau) sy'n golygu budd i'r unigolyn yn sgîl ymddygiad troseddol.
- unrhyw eiddo sy'n golygu budd o'r fath yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol (y cyfan neu ran ohono) pan fo'r unigolyn dan sylw yn gwybod neu'n amau ei fod yn cynnig neu'n cynrychioli budd o'r fath.

Gelwir unrhyw eiddo sy'n bodloni'r diffiniad hwn yn eiddo troseddol. Mae'r canlynol yn drosedd:

- cuddio, celu, newid neu drosglwyddo eiddo troseddol neu ei symud o'r Deyrnas Unedig.
- bod yn rhan o drefniant rydych yn gwybod neu'n amau ei fod yn ei gwneud hi'n haws i unigolyn arall gael, cadw, defnyddio neu reoli eiddo troseddol; a
- chaffael, defnyddio neu feddu ar eiddo troseddol ar yr amod nad yw cydnabyddiaeth ariannol ddigonol (h.y. pris dilys y farchnad) yn cael ei rhoi yn gyfnewid am ei gaffael, ei ddefnyddio neu feddu arno.

Gall cyflogeion y Brifysgol gyflawni'r troseddau hyn wrth drafod neu ymdrin â thaliadau i'r Brifysgol: os ydynt yn gwneud ad-daliad neu'n trefnu i wneud ad-daliad, ceir risg o gyflawni'r ddwy drosedd gyntaf, ac os ydynt yn derbyn taliad, ceir risg o gyflawni'r drydedd drosedd.

5.3 Diffyniadau a chyfrifoldebau

Ym mhob un o'r tri achos, yr unig amddiffyniad a fydd gan y Brifysgol a'i chyflogeion yw os nad yw'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol yn gwrthod cydsyniad i'r y trafodiad neu'r digwyddiad.

Y *cyflogai* sy'n gyfrifol am wneud datgeliad awdurdodedig o'r trafodiad i'r Swyddog Enwebedig.

Bydd y Swyddog Enwebedig yn rhoi cyfarwyddyd i'r cyflogai ac mae'n gyfrifol am ystyried y gofyniad i gysylltu â'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol.

5.4 Y Drosedd Methu Datgelu

Mae'n drosedd i Swyddog Enwebedig sy'n ymwybodol o wyngalchu arian neu'n amau hynny neu sydd â sail resymol dros wybod am hynny neu'i amau, ar ôl cael datgeliad awdurdodedig, beidio â gwneud datgeliad awdurdodedig dilynol i'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl iddo gael yr wybodaeth.

5.5 Y Drosedd o Niweidio Ymchwiliadau/Rhoi Achlust

Diben gwneud datgeliad awdurdodedig i'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol yw ei galluogi i ymchwilio i'r amheuan o wyngalchu arian er mwyn iddi benderfynu a ddylid gwrthod cydsynio i'r trafodiad.

Byddai'r ymchwiliad hwnnw'n cael ei niweidio pe bai'r unigolyn dan sylw (neu unrhyw un arall) yn cael gwybod bod datgeliad awdurdodedig wedi'i gyflwyno. Er mwyn atal hyn, yn ôl adran 342 o Ddeddf Enillion Troseddau 2002 mae'n drosedd gwneud datgeliad sy'n debygol o niweidio'r ymchwiliad i wyngalchu arian a gellir cosbi hyn drwy hyd at bum mlynedd yn y carchar. Gall cyflogaion y Brifysgol gyflawni'r drosedd hon os ydynt yn dweud wrth unigolyn bod datgeliad awdurdodedig wedi'i gyflwyno yn ymwneud â'r unigolyn hwnnw.

Mae'r polisi hwn yn ei gwneud hi'n ofynnol cadw datgeliadau awdurdodedig yn hollol gyfrinachol. Dylid trafod pryderon ac ymholiadau â'r Swyddog Enwebedig neu'i Ddirprwy yn unig yn ei absenoldeb, ac ni ddylid eu trafod ag unrhyw unigolyn arall, gan gynnwys Rheolwyr Llinell.

5.6 Adnabod eich Cwsmer.

Nod y rheoliadau hyn yw diogelu mynediad at y system ariannol. Maent yn gymwys i ystod o fusnesau sydd oll â mynediad at y system. Maent yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r busnesau hyn gynnal asesiadau risg ynghylch gwyngalchu arian a rhoi polisiâu a gweithdrefnau ar waith i reoli'r risgiau hynny. Yn benodol mae'n ofynnol i fusnesau y mae'r rheoliadau'n gymwys iddynt gynnal diwydrwydd dyladwy o gwsmeriaid newydd, sef proses "Adnabod eich Cwsmer". Ceir cosbau troseddol, gan gynnwys carcharu am hyd at ddwy flynedd, am beidio â chydymffurfio.

Er nad yw'r rheoliadau yn berthnasol i'r Brifysgol yn ei gwaith fel darparwr addysg, mae'r rheoliadau'n ganllaw o ran rheoli risg wrth ymdrin ag arian ac mae diwydrwydd dyladwy wrth wraidd ymagwedd y Brifysgol at reoli risg yn y polisi hwn.

I'r graddau y mae'r Brifysgol wedi'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ar gyfer rhan o'i busnes, mae'n rhaid iddi gydymffurfio â Rheoliadau Gwyngalchu Arian (ac mae polisi arall, manylach yn nodi ymagwedd y Brifysgol yn hyn o beth).

6. Cyllid Terfysgwyr

6.1 Y Prif Droseddau Cyllid Terfysgwyr

Er bod gwyngalchu arian yn ymwneud â'r broses o guddio tarddiad anghyfreithlon enillion troseddau, mae cyllid terfysgwr yn ymwneud â chasglu neu ddarparu cyllid at ddibenion terfysgwyr. Prif nod arianwyr terfysgwyr yw cuddio'r gweithgarwch ariannu a'r sianelau ariannol y maent yn eu defnyddio. Yma, felly, nid yw ffynhonnell y cyllid dan sylw o bwys; yn hytrach, diben arfaethedig y cyllid sy'n hollbwysig.

Gall taliadau neu daliadau arfaethedig a wneir i'r Brifysgol neu y gofynnir i'r Brifysgol eu gwneud greu amheuaeth o gyllid terfysgwyr am sawl rheswm gwahanol, ond yn nodweddiadol gallent gynnwys cais am daliad, ar ffurf ffug ad-daliad efallai, i'w dalu i gyfrif mewn awdurdodaeth sydd â chysylltiadau â therfysgaeth.

Mae Adrannau 15 i 18 o Ddeddf Terfysgaeth 2000 yn creu troseddau y gellir eu cosbi drwy hyd at 14 o flynyddoedd yn y carchar am:

- godi arian, meddu arno neu ei ddefnyddio at ddibenion terfysgaeth.
- dod yn rhan o drefniant i wneud cyllid ar gael at ddibenion terfysgaeth; a
- hwyluso gwyngalchu arian terfysgwyr (drwy ei guddio, ei symud, ei drosglwyddo neu mewn unrhyw ffordd arall).

Cyflawnir y troseddau hyn hefyd os yw'r unigolyn dan sylw yn gwybod y caiff y cyllid dan sylw ei ddefnyddio at ddibenion terfysgaeth, os oes ganddo sail resymol dros amau hynny, neu os yw'n bwriadu i'r cyllid dan sylw gael ei ddefnyddio at y dibenion hynny.

Yn achos hwyluso gwyngalchu arian terfysgwyr, mae'n amddiffyniad i'r unigolyn sydd wedi cael ei gyhuddo o'r drosedd os yw'n gallu profi nad oedd yn gwybod bod y trefniant yn gysylltiedig ag eiddo terfysgwyr ac nid oedd ganddo sail resymol i amau hynny.

Yn ôl Adran 19 o Ddeddf Terfysgaeth 2000, mae'n drosedd, y gellir ei chosbi drwy hyd at bum mlynedd yn y carchar, os yw unigolyn yn cael gwybodaeth drwy ei gyflogaeth sy'n achosi iddo gredu neu amau bod unigolyn arall wedi cyflawni trosedd o dan adrannau 15 i 18 o Ddeddf Terfysgaeth 2000 ac nid yw'n rhoi gwybod am y mater naill ai'n uniongyrchol i'r heddlu neu fel arall yn unol â gweithdrefnau ei gyflogwr.

6.2 Y Drosedd o Niweidio Ymchwiliadau

Yn ôl Adran 39 o Ddeddf Terfysgaeth 2000 mae'n drosedd, y gellir ei chosbi drwy hyd at bum mlynedd yn y carchar, i unigolyn sydd wedi gwneud datgeliad o dan adran 19 o Ddeddf Terfysgaeth 2000 ddatgelu i unigolyn arall sy'n debygol o niweidio'r ymchwiliad sy'n deillio o'r datgeliad hwnnw. Yn ôl y polisi hwn, mae'n ofynnol cadw datgeliadau a wneir o dan Ddeddf Terfysgaeth 2000 yn hollol gyfrinachol.

7. Gweithdrefnau

7.1 Trosolwg o weithdrefnau

Bydd y Brifysgol yn:

- cynnal asesiad risg blynyddol er mwyn nodi ac asesu meysydd risg o ran gwyngalchu arian a chyllid terfysgwyr sy'n benodol i'r Brifysgol.
- gweithredu rheolaethau sy'n gymesur â'r risgiau a nodir.
- creu a chynnal polisiâu a gweithdrefnau i gynnal diwydrwydd dyladwy ar arian a dderbynnir.
- adolygu polisiâu a gweithdrefnau yn flynyddol a monitro cydymffurfiaeth â'r rhain yn barhaus.
- penodi Swyddog Enwebedig i fod yn gyfrifol am hysbysu'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol am unrhyw drafodion amheus.
- darparu hyfforddiant i'r holl gyflogeion perthnasol, gan gynnwys cyflogeion dros dro, wrth ymuno â'r Brifysgol, a chyflogeion presennol; a
- chynnal a chadw cofnodion llawn o waith a wneir mewn perthynas â'r polisi hwn.

7.2 Asesu Risg, Adolygu Parhaus ac Atebolrwydd y Brifysgol

O leiaf unwaith y flwyddyn, ac yn amlach os bydd newid sylweddol mewn amgylchiadau, bydd y Prif Swyddog Ariannol yn:

- cynnal asesiad o'r risg o ran gwyngalchu arian a chyllid terfysgwyr yng ngweithgareddau'r Brifysgol.
- adolygu ac, os oes angen, ddiwygio'r polisi hwn yn sgîl yr asesiad risg hwnnw.
- adolygu ac, os oes angen, ddiwygio trefniadau'r Brifysgol ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi hwn er mwyn targedu adnoddau i'r meysydd lle mae'r risg ar ei mwyaf; ac
- adrodd i'r Cyngor am bob agwedd ar y polisi hwn, gan gynnwys ei weithredu.

Er mwyn hwyluso'r swyddogaethau adolygu ac atebolrwydd, bydd yr Is-ganghellor yn sicrhau:

- bod gwybodaeth reoli briodol ar gael er mwyn hwyluso goruchwyliaeth a her effeithiol; a
- bod cofnodion llawn o waith a wneir mewn perthynas â'r polisi hwn yn cael eu cynnal a'u cadw.

Wrth gynnal yr asesiad o risgiau o ran gwyngalchu arian a chyllid terfysgwyr sy'n deillio o waith a gweithgarwch cyllid y Brifysgol, bydd y Prif Swyddog Ariannol yn ystyried profiadau'r Brifysgol ac unrhyw wersi a ddysgir wrth weithredu'r polisi hwn. Bydd hefyd yn ystyried unrhyw arweiniad neu asesiadau a wneir gan lywodraeth y DU, asiantaethau gorfodi'r gyfraith a rheoleiddwyr, gan gynnwys y Comisiwn Elusennau, Medr a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Gallai hefyd ystyried adroddiadau gan sefydliadau anllwyodraethol a darparwyr diwydrwydd dyladwy masnachol.

7.3 Diwydrwydd Dyladwy ynghylch Trafodion

Diwydrwydd dyladwy yw proses y Brifysgol o sicrhau ei hun o ran tarddiad y cyllid y mae'n ei gael a sut y gall fod yn hyderus ei bod yn adnabod y bobl a'r sefydliadau y mae'n gweithio gyda nhw ac yn cael arian ganddynt.

Dylid cynnal diwydrwydd dyladwy cyn cael yr arian, ac ni ddylid dychwelyd arian cyn bod diwydrwydd dyladwy wedi cael ei adolygu.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu:

- nodi a chadarnhau hunaniaeth talwr neu dalai, sef myfyriwr, noddwr neu roddwr fel arfer.
- pan fydd trydydd parti'n gwneud taliad ar ran y myfyriwr neu'r rhoddwr, nodi a chadarnhau hunaniaeth y trydydd parti hwnnw.
- nodi a chadarnhau ffynhonnell unrhyw daliad sy'n cael ei wneud i'r Brifysgol.
- nodi, ac mewn rhai amgylchiadau, gadarnhau ffynhonnell y cyfoeth sy'n darparu'r arian.

Mae ffynhonnell cyllid yn cyfeirio at darddiad yr arian dan sylw. Yr enghraifft fwyaf cyffredin o ffynhonnell cyllid yw cyfrif banc. Mae ffynhonnell cyfoeth yn cyfeirio at sut daeth yr unigolyn sy'n gwneud y taliad o hyd i'r cyllid dan sylw. Enghraifft o ffynhonnell cyfoeth yw cynilion o gyflogaeth.

7.4 Asesiad Risg o Drafodion

Ar ôl cwblhau ei hymarfer diwydrwydd dyladwy, bydd y Brifysgol yn asesu'r risg o ran gwyngalchu arian a chyllid terfysgwyr sy'n gysylltiedig â'r trafodiad arfaethedig.

Os ystyrir bod yr achos yn y categori amheus neu os bydd yr aelod staff sy'n ymdrin ag ef yn ystyried fel arall fod amheuaeth o wyngalchu arian neu gyllid terfysgwyr, rhaid rhoi gwybod am yr achos drwy e-bostio'r Swyddog Enwebedig cyn gynted ag sy'n ymarferol.

Bydd y Swyddog Enwebedig yn ystyried yr adroddiad ac yn penderfynu:

- a ddylid derbyn neu wneud y taliad arfaethedig ai peidio.
- a ddylid gwneud datgeliad awdurdodedig i'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol ai peidio; ac
- a ddylid gwneud datgeliad o dan Ddeddf Terfysgaeth 2000 ai peidio.

Bydd y Swyddog Enwebedig yn cofnodi'n ysgrifenedig y rhesymau dros ei benderfyniad ac yn cadw'r cofnod hwnnw yn ganolog. Ni ddylid byth cadw gwybodaeth bod datgeliad awdurdodedig wedi'i wneud yn y ffeil sy'n gysylltiedig â'r unigolyn dan sylw.

7.5 Cyfrinachedd asesiadau risg

Rhaid cadw asesiadau risg sy'n ymwneud ag unigolion a datgeliadau awdurdodedig yn hollol gyfrinachol ac ni ddylid eu trafod yn yr Adran Gyllid oni bai ar y sail gaeth bod angen gwybod. Ni chaiff unrhyw gyflogai ddatgelu i unrhyw unigolyn y tu allan i'r Adran Gyllid, gan gynnwys yn

benodol y myfyriwr neu'r cyllidwr trydydd parti dan sylw, fod datgeliad awdurdodedig neu ddatgeliad o dan Ddeddf Terfysgaeth 2000 wedi cael ei wneud.

7.6. Monitro

Bydd y Prif Swyddog Ariannol yn llunio ac yn gweithredu trefniadau i sicrhau y caiff cydymffurfiaeth â'r polisi hwn ei hadolygu'n barhaus drwy adolygu ffeiliau'n rheolaidd, gan gynnwys adolygiadau o ddiwydrwydd dyladwy ac asesu risg, ac adroddiadau ac adborth gan gyflogaion. Gellir gofyn i'r archwilyr mewnol gynorthwyo wrth fonitro gweithrediad effeithiol y polisi hwn.

Er mwyn hwyluso gwaith monitro a darparu tystiolaeth o gydymffurfio â'r polisi hwn, bydd y Brifysgol yn cadw'n ddiogel yr holl gofnodion cyllid ynghylch atal gwyngalchu arian ac atal cyllid terfysgwyr am o leiaf bum mlynedd.

7.7 Hyfforddiant

Wrth ymuno â'r Brifysgol, bydd pob cyflogai'n cael hyfforddiant atal gwyngalchu arian fel rhan o'r broses sefydlu.

Bydd hyfforddiant y Brifysgol ynghylch atal gwyngalchu arian ac atal cyllid terfysgwyr yn cynnwys y gyfraith gymwys, gweithrediad y polisi hwn a'r amgylchiadau lle gallai amheuan godi.

Bydd y Brifysgol yn cofnodi ei hyfforddiant atal gwyngalchu arian ac yn cadw'r cofnodion hynny am o leiaf bum mlynedd.

8. Monitro ac Adolygu

Caiff y polisi hwn ei adolygu a'i ddiweddarau unwaith bob dwy flynedd, neu'n amlach os bydd digwyddiad neu os bydd deddfwriaeth y DU yn newid.

9. Polisiâu cysylltiedig

- [Polisi Gwrth-lwgrwobrwy a Llygredigaeth](#)
- [Polisi Atal Twyll](#)
- [Polisi Deddf Cyllid Troseddol](#)
- [Cynllun Ymateb i Dwyll](#)
- [Polisiâu Adnoddau Dynol](#)
- [Polisi Chwythu'r Chwiban](#)

Rheoli fersiwn

Fersiwn	5.0
Newidiadau	Mân newidiadau drwy'r ddogfen er mwyn eglurder. Caiff y polisi hwn ei ddiweddarau i newid enw'r Prif Swyddog Ariannol pan fydd angen ac ni fydd angen cymeradwyaeth ymlaen llaw.
Diweddarwyd	29.01.26
Dyddiad Cymeradwyo	
Corff Cymeradwyo	Y PWYLLGOR ARCHWILIO, SICRWYDD A RISG
Swyddog Enwebedig	Y Prif Swyddog Ariannol
Swyddog Atebol	Yr Is-ganghellor

